Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

ADOLYGIAD AR DDIGARTREFEDD YMHLITH POBL IFANC

“BUSNES PAWB, CYFRIFOLDEB NEB”

CYNNWYS **TUDALEN**

Cyflwyniad y Cadeirydd	1
Cyflwyniad	2
Pennod 1 – Y fframwaith cyfreithiol a'r fframwaith polisi	4
Pennod 2 – Atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc	12
Pennod 3 – Tai a budd-daliadau	19
Pennod 4 – Materion eraill	25
Atodiad 1 – Crynodeb o'r argymhellion	29
Atodiad 2 – Rhestr termau	33
Atodiad 3 – Cylch gorchwyl	38
Atodiad 4 – Tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig	39
Atodiad 5 – Prosiectau yr ymwelwyd â nhw	40

AELODAU'R PWYLLGOR

Janice Gregory AC
(Cadeirydd)
Ogwr

Mick Bates AC
Sir Drefaldwyn

Edwina Hart AC
(Gweinidog)
Gwyr

Mark Isherwood AC
Gogledd Cymru

Laura Anne
Jones AC
Dwyrain De
Cymru

Trish Law AC
Blaenau Gwent

Huw Lewis AC
Merthyr Tudful a
Rhymni

Sandy Mewies AC
Delyn

Leanne Wood AC
Canol De Cymru

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Yn 2003, cynhaliodd y Pwyllgor ei adolygiad cyntaf a'r testun dan sylw oedd Tai ar gyfer Pobl Hŷn. Teimlaf ei bod ond yn briodol i hwn, ein hadolygiad terfynol yn ystod yr Ail Gynulliad, ystyried anghenion rhai o aelodau ieuengaf ein cymdeithas.

Mae digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn broblem na allwn ei hanwybyddu. Mae'n effeithio ar leiafrif sylweddol o rai o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed, bob blwyddyn. Mae gennym ddyletswydd gofal sylweddol i'r bobl ifanc hyn a chredaf eu bod yn haeddu'r gwasanaethu gorau y gallwn ni yng Nghymru eu darparu ar eu cyfer.

Clywsom dystiolaeth frawychus yn ystod ein hadolygiad gan bobl ifanc ddigartref eu hunain a chan y bobl sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Mae hyn wedi cryfhau'n penderfyniad i ofalu bod sefydliadau a phobl sydd â'r sgiliau a'r adnoddau priodol ar gael i'w helpu ar adegau o argyfwng yn eu bywydau.

Cawsom ein calonogi'n fawr gan yr holl enghreifftiau o arferion da a welsom yn ystod yr adolygiad, yn ogystal â'r ymroddiad a'r gwaith caled a ddangosai'r bobl sy'n gweithio i helpu pobl ifanc ddigartref. Caiff gwasanaethau ardderchog eu darparu gan nifer o gyrff ac unigolion a hoffem i ddarpariaeth o'r safon hwn fod ar gael i bob person ifanc digartref yng Nghymru. Hoffwn dalu teyrnged, ar ran y Pwyllgor, i ymroddiad ac ymrwymiad ein holl dystion i'r gwaith o wella bywydau pobl ifanc ddigartref yng Nghymru.

Cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer argymhellion gan y bobl y cawsom gyfle i siarad â nhw, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt. Rydym wedi ceisio cynnwys llawer ohonynt yn ein hadroddiad, ond wedi canolbwyntio ar geisio gwneud argymhellion strategol a fydd, fe gredwn, yn helpu i gyflawni'r argymhellion mwy penodol a awgrymwyd i ni.

Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth, dywedodd un o'n tystion iddi ymchwilio i lenyddiaeth yn ymwneud â digartrefedd ymhlith pobl ifanc i geisio cael hyd i rywbeth newydd i'w ddweud yn ein cyfarfod. Cafodd fraw o sylweddoli fod yr holl faterion a oedd yn berthnasol heddiw wedi'u codi o leiaf 10 mlynedd yn ôl.

Mawr hyderaf, ymhen 10 mlynedd, y bydd y cymorth a'r gefnogaeth y mae pobl ifanc ddigartref yng Nghymru yn ei gael, o'r lefel a'r ansawdd y maent yn ei haeddu. Credaf y gall yr adolygiad hwn wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl ifanc ddigartref yng Nghymru a gobeithio y bydd yr argymhellion yr ydym yn eu cynnig yn sbarduno cyrff ac unigolion i weithredu.

Janice Gregory

Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

CYFLWYNIAD

Mae gwir faint digartrefedd yng Nghymru yn anodd ei fesur. Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2006, dangosodd ffigyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru fod 782 o deuluoedd rhwng 16 a 25 oed yng Nghymru yn cael eu hystyried yn gymwys i gael cymorth, yn ddigartref yn anfwriadol a'u hangen am gartref yn flaenoriaeth (allan o gyfanswm o 1741).

Awgryma llawer o gyrff gwirfoddol y gallai'r gwir ffigwr fod o leiaf ddwywaith gymaint â'r ffigwr swyddogol oherwydd y 'digartref cudd' nad ydynt, am wahanol resymau, yn ymddangos yn yr ystadegau swyddogol.

Waeth beth fo'r gwir ffigwr, mae'r rheini sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref yng Nghymru yn cytuno bod angen mynd i'r afael â sawl agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir.

Penderfynwyd canolbwyntio ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc ar gyfer ein hadolygiad, a phennwyd ein cylch gorchwyl ar ôl i ni ystyried papur cwmpasu'n ymwneud â'r problemau. Penderfynwyd ar y canlynol:

Ystyried y materion sy'n gysylltiedig â digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn benodol:

- Y gwasanaethau y mae awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn eu darparu i bobl ifanc ddigartref, gan gynnwys nodi arferion da;
- Swyddogaeth awdurdodau lleol o ran cymhwyso deddfwriaeth berthnasol i faterion yn ymwneud â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys nodi arferion da;

Gwneud argymhellion.

Mae fersiwn llawnach o'r cylch gorchwyl ar gael yn Atodiad C

Cawsom dystiolaeth gan nifer o ddarparwyr gwasanaeth o'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol. Roeddem hefyd yn awyddus i siarad â phobl ifanc ddigartref a gwnaethom hyn drwy gyfrwng cyfres o grwpiau ffocws o amgylch Cymru.

Mae'r rhesymau dros ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc, a'r materion sy'n effeithio ar y broblem, yn hysbys ac maent wedi'u trafod yn eang. Daeth nifer o themâu cyfarwydd i'r amlwg o'r dystiolaeth a gawsom ac roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y tystion ynglŷn â'r problemau yr oeddynt yn eu hwynebu.

O gofio hyn, ni fydd yr adroddiad hwn yn ailystyried yr holl ddadleuon sy'n gysylltiedig â'r problemau. Yn hytrach, mae'n cynnwys cyfres o argymhellion sydd wedi'u seilio'n gadarn ar y dystiolaeth a gawson yn ystod ein hymchwiliad. Rydym yn benderfynol na fydd yr adroddiad hwn yn cael ei adael ar unrhyw silff, ond y bydd yn dechrau proses o welliannau gwirioneddol a pharhaus i'r gwasanaethau sydd eu dirfawr angen ar ein pobl ifanc ddigartref yng Nghymru.

Cawsom lawer iawn o dystiolaeth ynglŷn â phroblemau ariannu, o achosion o dynnu arian yn ôl oddi ar brosiectau unigol bychain, i achosion o leihau'r arian sydd ar gael i awdurdodau lleol. Nid ydym yn gwneud nifer fawr o argymhellion penodol ynghylch ariannu gan ein bod yn credu bod llawer o'r problemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd yn deillio o ddiffyg cyfeiriad a chynllunio strategol a gweithio cydgysylltiedig, a dyma'r meysydd rydym wedi canolbwyntio arnynt.

Wrth i ni ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, daethom i sylweddoli bod nifer o argymhellion yn berthnasol i bob agwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc ac y dylent fod yn sylfaen i argymhellion eraill, mwy penodol.

Argymhelliad 1: Yng nghyd-destun agenda Adolygiad Beecham, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau, drwy ei strategaeth digartrefedd a thrwy fonitro lefel a chwmpas y gwasanaethau sydd ar gael, fod cwmpas ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc ddigartref yn gyson ar hyd a lled Cymru a'u bod ar gael lle y mae eu hangen.

Dylid rhoi cymorth ac arweiniad i awdurdodau lleol i sefydlu partneriaethau rhanbarthol a fydd yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol weithio mewn partneriaeth i symleiddio'r system gymhleth bresennol o sicrhau bod gwasanaethau, a gwybodaeth amdanynt, ar gael i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru asesu'r angen am wasanaethau digartrefedd i bobl ifanc yn bwrpasol a, lle bo angen, dylai sicrhau bod digon o arian ar gael ar eu cyfer.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar weithio cydgysylltiedig ar bob agwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc, o fewn yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid allanol, er mwyn i adrannau ac asiantaethau gwahanol gydweithio mwy ac er mwyn gwella gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol gynnwys defnyddwyr gwasanaeth ym mhob agwedd ar y gwaith o gynllunio a chreu polisïau ar gyfer gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref.

PENNOD 1 – Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL A'R FFRAMWAITH POLISI

1.1 Mae'r ffactorau sy'n gysylltiedig â digartrefedd ymhlith pobl ifanc – yr hyn sy'n ei achosi, yr amgylchiadau sy'n cyfrannu ato a'r camau y mae angen eu cymryd i ddelio'n effeithiol ag ef – yn gymhleth ac mae sawl agwedd arnynt. Roedd y cyrff a'r unigolion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod yr adolygiad polisi yn pwysleisio arwyddocâd ffactorau unigol a chymdeithasol gan gynnwys:

- y berthynas rhwng aelodau'r teulu
- camddefnyddio sylweddau
- pobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol
- addysg a gwaith
- y gallu i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- tai fforddiadwy
- y system fudd-daliadau
- y seilwaith trafnidiaeth

1.2 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith polisi sy'n gysylltiedig â digartrefedd ymhlith pobl ifanc o ran sut y mae'n berthnasol i'r cyflwr o fod yn ddigartref yn benodol ac o ran y meysydd y nodwyd eu bod yn arwyddocaol yn ystod cyfnod yr adolygiad polisi.

Digartrefedd ymhlith pobl ifanc: y fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith polisi penodol

1.3 Mae'r fframwaith statudol yn ymwneud â digartrefedd yng Nghymru yn canolbwyntio ar gyfrifioldebau awdurdodau lleol o ran atal a mynd i'r afael â digartrefedd a'r ddeddfwriaeth a ganlyn sy'n darparu ar ei gyfer:

Deddf Tai 1996

1.4 Mae Adran 175 o *Ddeddf Tai 1996* yn diffinio digartrefedd fel a ganlyn:

> **175.** - (1) A person is homeless if he has no accommodation available for his occupation, in the United Kingdom or elsewhere, which he-
>
> (a) is entitled to occupy by virtue of an interest in it or by virtue of an order of a court,
> (b) has an express or implied licence to occupy, or
> (c) occupies as a residence by virtue of any enactment or rule of law giving him the right to remain in occupation or restricting the right of another person to recover possession.
>
> (2) A person is also homeless if he has accommodation but-
>
> (a) he cannot secure entry to it, or

(b) it consists of a moveable structure, vehicle or vessel designed or adapted for human habitation and there is no place where he is entitled or permitted both to place it and to reside in it.

(3) A person shall not be treated as having accommodation unless it is accommodation which it would be reasonable for him to continue to occupy.

1.5 O dan Adran VII o *Ddeddf Tai 1996* (Deddf 1996)[1], mae dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i ddarparu llety i'r rheini sy'n ddigartref, yn gymwys i gael cymorth, ac sydd â blaenoriaeth angen. Mae Adran 189 o'r Ddeddf yn nodi'r disgrifiadau o'r rheini y dylid rhoi blaenoriaeth i'w hanghenion ac mae hefyd yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i nodi disgrifiadau ychwanegol.

189. - (1) The following have a priority need for accommodation-

(a) A pregnant woman or a person with whom she resides or might reasonably be expected to reside;

(b) A person with whom dependent children reside or might reasonably be expected to reside;

(c) A person who is vulnerable as a result of old age, mental illness or handicap or physical disability or other special reason, or with whom such a person resides or might reasonably be expected to reside;

(d) A person who is homeless or threatened with homelessness as a result of an emergency such as flood, fire or other disaster.

Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001

1.6 Defnyddiodd y Cynulliad Cenedlaethol ei bwerau i lunio is-ddeddfwriaeth i gyflwyno *Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001*[2] a ehangodd y categorïau o bobl yr ystyrir bod eu hangen yn flaenoriaeth. Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r disgrifiadau ychwanegol a ganlyn o bobl sydd â'u hangen yn flaenoriaeth:

- Person sy'n gadael gofal neu sydd mewn perygl neilltuol o gael ei ecsbloetio'n rhywiol neu'n ariannol, ac sy'n 18 oed neu drosodd ond o dan 21 oed
- Person 16 neu 17 oed
- Person sy'n ffoi rhag trais yn y cartref neu rhag bygythiad trais yn y cartref
- Person sy'n ddigartref ar ôl gadael y lluoedd arfog
- Cyn-garcharor sy'n ddigartref ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa

---

[1] *Deddf Tai 1996* http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1996/1996052.htm#aofs

[2] *Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001*, Rhif 607 (W.30) http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2001/20010607e.htm

Deddf Digartrefedd 2002

1.7 Cyflwynodd *Deddf Digartrefedd 2002*[3] :

- Ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiad o ddigartrefedd yn eu hardal
- Dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi strategaeth i atal a mynd i'r afael â digartrefedd
- Dyletswydd i ddarparu llety sefydlog i bobl sy'n anfwriadol ddigartref a'u hangen yn flaenoriaeth
- Diwygio'r fframwaith y mae cynghorau'n ei ddefnyddio i ddyrannu tai

Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006

1.8 Cyflwynodd Cynulliad Cenedlaethol is-ddeddfwriaeth ychwanegol, *Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006,* a ddaeth i rym ar 3 Ebrill 2006[4]. Mae Rhan 1 o'r Gorchymyn yn nodi materion i'w hystyried wrth benderfynu a yw llety'n addas ar gyfer person. Mae'r materion hyn yn berthnasol i anghenion iechyd person, unrhyw anabledd sydd gan y person a pha mor agos yw'r gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw gymorth arall. Daw Rhan 2 a 3 o'r Gorchymyn i rym ym mis Ebrill 2007 a 2008 ac maent yn berthnasol i lety Gwely a Brecwast.

1.9 Ym mis Mawrth 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *God Canllawiau* ar gyfer awdurdodau lleol yn egluro sut y dylent gyflawni eu swyddogaethau a chymhwyso'r gwahanol feini prawf statudol wrth ddyrannu llety a digartrefedd .[5]

Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006-2008

1.10 Cyhoeddwyd *Y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd 2006-2008* ym mis Tachwedd 2005[6] ac mae'n egluro sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru a sut y mae'n bwriadu gweithio gyda'r cyhoedd, asiantaethau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, a phobl ddigartref eu hunain, i atal digartrefedd ac i'w leddfu pan nad oes modd ei osgoi. Strategaeth sy'n hybu dulliau ataliol ac adferol yw hon ac mae'n cwmpasu'r broses o weithredu dyletswyddau'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud yn benodol â digartrefedd ac ystod o faterion polisi ehangach sy'n effeithio ar ddigartrefedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

---

[3] *Deddf Digartrefedd 2002:* http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2002/20020007.htm

[4] *Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006*, Rhif 650 (W.71) http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2006/20060650e.htm

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ebrill 2003) *Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd* http://newydd.cymru.gov.uk/docrepos/40382/sjr/housing/management/allocationlas?lang=en

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2005) *Y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd 2006-2008* http://newydd.cymru.gov.uk/docrepos/40382/sjr/housing/homelessness/strategye?lang=en

- y stoc dai, a mynediad at y stoc dai; y sytem budd-daliadau tai;
- llety dros dro a thai â chymorth;
- anghenion grwpiau penodol o bobl, fel merched, lesbiaid a phobl hoyw a phobl o gymunedau ethnig lleiafrifol;
- swyddogaeth addysg, hyfforddiant a gwaith yn y broses o atal a mynd i'r afael â digartrefedd;
- pwysigrwydd cydweithio traws-sector effeithiol, ynghyd â chynllunio a gwerthuso strategol, os yw'r strategaeth am gael ei gweithredu'n llwyddiannus.

Mae cwmpas y strategaeth yn cynnwys meysydd polisi lle mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau datganoledig, fel tai, a meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, fel y system budd-daliadau.

1.11 Mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi beth y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud a beth y bydd yn disgwyl i gyrff eraill ei wneud i helpu i weithredu'r strategaeth yn llwyddiannus. Mae Adran 1.7 o'r cynllun gweithredu'n delio â phlant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymo i:

- Gyflwyno deddfwriaeth i roi gwell diogelwch i blant sydd mewn teuluoedd digartref
- Sicrhau bod Partneriaethau Pobl Ifanc yn gweithio gydag adrannau tai awdurdodau lleol i nodi anghenion tai sy'n benodol i bobl ifanc
- Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu pecyn hyfforddi i weithwyr ieuenctid yn ymwneud â delio â digartrefedd
- Sefydlu mecanwaith ar gyfer ymgynghori ar y Strategaeth Digartrefedd i gynnwys pobl ifanc yn y gwaith o'i ddatblygu
- Cyflwyno Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant ym mis Mehefin 2006 i hyrwyddo gweithio ar y cyd er mwyn cynorthwyo teuluoedd y mae digartrefedd yn effeithio arnynt i bontio'n llwyddiannus

1.12 Bydd llawer o bobl ifanc ddigartref yn disgyn i gategorïau eraill, er enghraifft, rhieni ifanc neu ferched beichiog, y rheini sy'n gadael y lluoedd arfog, y rheini sydd wedi camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a'r rheini sydd wedi'u rhyddhau o'r ddalfa. Mae Shelter Cymru wedi amcangyfrif mai dim ond 25 oed yw penteulu tua 40% o aelwydydd sy'n chwilio am gymorth gan eu hawdurdod lleol. Felly, bydd llawer o'r ymrwymiadau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl ifanc.

1.13 Yn ogystal â'r arian heb ei glustnodi sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w ddefnyddio i fynd i'r afael â digartrefedd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu amrywiaeth o brosiectau digartrefedd drwy ei rhaglen Grant Digartrefedd. Caiff y rhaglen ei hariannu o dan Linell Wariant yn y Gyllideb Digartrefedd a Chysgu ar y Stryd Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n werth £6,333,000 yn 2006-07. Mae enghreifftiau o'r prosiectau a ariennir gan y rhaglen yn cynnwys:

- Gwasanaeth asesu ieuenctid a chyfryngu teuluol Barnardos sy'n rhan o brosiect amlasiantaeth Bays yn Abertawe.
- Prosiect Atal Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc NACRO sy'n cynnwys gwaith allgymorth gyda phobl ifanc.
- Datblygu prosiect Nightshop ym Mhowys, sy'n cynnwys recriwtio gwirfoddolwyr sydd wedi'u cymeradwyo a all gynnig llety brys i bobl ifanc sy'n wynebu argyfwng oherwydd digartrefedd.

Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc: y cyd-destun ehangach o ran deddfwriaeth a pholisi

1.14 Fel y mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddangos, mae amrywiaeth o feysydd polisi a meysydd deddfwriaethol yn cyfrannu at y fframwaith a gaiff ei ddefnyddio i fynd i'r afael â digartrefedd. Dyma rai enghreifftiau.

Dyletswyddau eraill awdurdodau lleol

1.15 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gofal i bobl, gan gynnwys y rheini sy'n ddigartref, o dan amrywiaeth o Ddeddfau, gan gynnwys:

- *Deddf Plant 1989*[7], ss17-20, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a darparu ar gyfer 'plant mewn angen', gan gynnwys darparu tai os oes angen. Clywodd y Pwyllgor sut y caiff y Ddeddf hon, yn hytrach na deddfwriaeth yn ymwneud â digartrefedd neu dai, ei defnyddio yn Abertawe fel y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed[8].

- *Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990*[9] sy'n ei gwneud yn ofynnol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol gynnal asesiadau o'r rheini y gallai bod angen gwasanaethau gofal yn y gymuned arnynt. Dylai'r prosesau cynllunio ac asesu nodi'r holl anghenion gan gynnwys tai.

Polisi tai

1.16 Cyhoeddwyd Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Tai Gwell i Bobl Cymru* yn 2001[10]. Mae'r strategaeth hon, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, a gafodd eu diweddaru ym mis Hydref 2006[11] yn ymdrin â digartrefedd yn uniongyrchol, e.e. drwy gynnal adolygiad

---

[7] *Deddf Plant 1989:* http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1989/Ukpga_19890041_en_1.htm

[8] Cofnod y Trafodion para 25, 6 Rhagfyr 2006, Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: http://www.cymru.gov.uk/cms/2/CommitteeMeeting/N00000000000000000000000000000061/91da84bde94785c538b6c6efdb27c200.htm

[9] *Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990:* http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1990/Ukpga_19900019_en_1.htm

[10] *Cartefi Gwell i Bobl Cymru,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2001: http://newydd.cymru.gov.uk/docrepos/40382/sjr/housing/betterhomese?lang=en

[11] *Cartefi Gwell i Bobl Cymru: Cynllun Gweithredu.* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hydref 2006*:* http://newydd.cymru.gov.uk/docrepos/40382/sjr/housing/betterhomesactionplane?lang=en

o'r *Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol wrth Ddyrannu Tai i'r Digartref*, ac yn anuniongyrchol, drwy gymryd camau a gynlluniwyd i sicrhau bod rhagor o dai ar gael a'u bod yn fwy fforddiadwy. Drwy'r *Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy*[12], mae Llywodraeth y Cynulliad, er enghraifft, yn ceisio annog awdurdodau a'u partneriaid i ddefnyddio'r pwerau a'r dulliau sydd ar gael iddynt i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael. Dylai nifer y tai hyn gyd-fynd â'r anghenion tai a'r amgylchiadau lleol drwy godi ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng gwahanol bolisïau, dulliau, a swyddogaethau a thrwy gynnig enghreifftiau o arferion da yng Nghymru. Mae'r Grant Tai Cymdeithasol yn enghraifft dda o ddull y gellir ei ddefnyddio i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael. Grant cyfalaf yw hwn sydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu tai fforddiadwy newydd i'w rhentu neu dai i'w prynu'n rhad er mwyn diwallu'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a nodir gan yr awdurdodau lleol[13].

1.17 Cefnogi Pobl yw fframwaith polisi a chyllido Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno cymorth yn gysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed. Mae meini prawf Grant Refeniw Cefnogi Pobl yn cynnwys categori ar gyfer pobl ifanc ddigartref. Cafodd £7,364,000 ei wario yn 2005-06 i ddarparu 2401 uned i gynorthwyo pobl sengl ddigartref a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r rhaglen hefyd yn rhoi cymorth i bobl ifanc drwy brosiectau eraill, fel y rheini sy'n delio â chamddefnyddio sylweddau neu ymddygiad troseddol, sydd hefyd yn rhoi llety i bobl ifanc.

Polisi camddefnyddio sylweddau

1.18 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu grŵp arbenigol sy'n cynnwys cynrychiolwyr Shelter Cymru a fydd yn edrych ar broblemau cydberthnasol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a digartrefedd a'r gallu i gael triniaeth fel rhan o nifer o fodiwlau sy'n cael eu datblygu yn y *Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru ar gyfer Cymru*[14]*.* Bydd y modiwl yn gosod safonau arferion da yng nghyswllt trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau tai a darparu ystod lawn o wasanaethau i roi triniaeth i bobl ddigartref, gan gynnwys gofynion llety pobl ifanc sy'n cwblhau triniaeth preswyl i'w dadwenwyno neu driniaeth i'w hadsefydlu[15].

---

[12] *Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy.* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mehefin 2006: http://newydd.cymru.gov.uk/docrepos/40382/sjr/housing/affordablehousingtoolkite?lang=en

[13] Mae rhagor o wybodaeth am y Grant Tai Cymdeithasol ar gael os ewch i: http://newydd.cymru.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants/shg?lang=en

Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2000.

[15] Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, SJR(2) –12-06(p2) Atodiad 1, Camddefnyddio Sylweddau – 4*ydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol,* 21 Medi 2006: http://www.cymru.gov.uk/cms/2/SocialJusticeAndRegenerationCommittee/N000000000000000000000000000006/5bd8deed31935e20363803497890b083.htm

Polisi Troseddau Ieuenctid

1.19 Mae Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan[16] yn cynnwys ymrwymiadau i:

- werthuso i ba raddau y mae strategaethau digartrefedd lleol yn ymdrin ag anghenion troseddwyr ifanc**;**
- asesu i ba raddau y mae Cynlluniau Gweithredol Cefnogi Pobl yn ymdrin ag anghenion troseddwyr ifanc**,**
- sicrhau, drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ac awdurdodau lleol, fod yr holl Dimau Troseddau Ieuenctid yn gweithio i nodi anghenion tai troseddwyr ifanc yn eu hardaloedd a sicrhau bod hyn yn cyfrannu at eu gwaith ym maes digartrefedd lleol a phrosesau cynllunio Cefnogi Pobl.

Polisi gofal iechyd

1.20 Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol ddyletswydd statudol i wella iechyd pawb, cynllunio'r gwaith o ddatblygu gofal sylfaenol a phrynu gwasanaethau iechyd i ymdrin ag anghenion eu pobl. Disgwylir i Fyrddau Iechyd Lleol weithio'n agos gyda llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill i hybu cydweithrediad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i ddatblygu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Yn ôl Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n ofynnol :

- i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol adolygu eu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i sicrhau bod ganddynt drefniadau i ymdrin ag anghenion penodol pobl ddigartref;
- i Fyrddau Iechyd Lleol fod â rhan lawn yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau i'r digartref
- i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn parhau i gadw cysylltiad â phobl ddigartref ac yn enwedig teuluoedd digartref â phlant ifanc, drwy drefniadau cyfeirio[17].

Polisi gwaith a budd-daliadau

1.21 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o fentrau i helpu pobl i gael gwaith. Er nad yw wedi'i anelu'n benodol at bobl ddigartref, bydd llawer o'r rheini sy'n rhan o gynlluniau *Llwybrau at Waith, Y Fargen Newydd a* Chanolfan Byd Gwaith yn ddigartref, oherwydd y gyfran o bobl ddigartref sydd heb waith cyflogedig. Yng Nghymru, gall cynghorwyr personol Canolfan Byd Gwaith yn awr ddyfarnu Grantiau Gofal Cymunedol i

---

[16] *Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan.* Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2004: http://www.ecoliinquirywales.org.uk/docrepos/40382/sjr/crime/youthoffendingstrategye?lang=en

[17] Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2005) Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd 2006-2008 t 36

bobl ddigartref. Mae *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru*[18] yn cydnabod pobl ddigartref fel grŵp y mae angen eu helpu i gael gwaith.

1.22 Nid yw'r system fudd-daliadau yng Nghymru yn faes sydd wedi'i ddatganoli ac felly nid yw'n rhan o'r fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith polisi a ddefnyddir i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod bron pawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor wedi cyfeirio at agweddau arbennig ar y system fudd-daliadau fel ffactorau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc.

1.23 Mae'r Cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl sydd wedi'i gynnwys yn *Rheoliadau Diwygio Budd-dal Tai (Cyffredinol) 1996*, yn golygu bod pobl dan 25 oed sy'n hawlio budd-dal tai yn derbyn llai na'r rheini dros 25 oed.

1.24 Mae'r system Budd-daliadau Tai, y mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth ar ei gyfer, hefyd yn effeithio ar allu pobl ifanc ddigartref i gael gwaith ac addysg.

1.25 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn amlygu effaith posibl y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur Diwygio Lles i lunio rheoliadau, gan gynnwys:

- Cyflwyno cyfradd sylfaenol y LwfansTai Lleol yn raddol, yn genedlaethol yn y sector rhentu preifat. Telir y lwfans hwn i denantiaid yn uniongyrchol a rhaid iddynt hwy wedyn wneud eu trefniadau eu hunain â'u landlordiaid
- Treialu'r syniad o ddileu hawl tenantiaid cynghorau a chymdeithasau tai i ofyn am i'w taliadau gael eu gwneud i'r landlord yn uniongyrchol
- Dileu neu roi llai o fudd-daliadau tai / lwfans tai lleol i bobl sy'n gwrthod cymorth ar ôl iddynt gael eu troi allan oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1.26 Mae'r fframwaith deddfwriaethol a'r fframwaith polisi sy'n ymwneud â digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn gymhleth ac yn eang, o ran maes polisi ac o ran ymarfer pwerau, ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol a Llywodraeth y DU, wahanol gyfrifoldebau a gwahanol bwerau dros wahanol agweddau ar yr agenda.

[18] Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2005: http://newydd.cymru.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/40382121/c5104-seap-report-e.pdf?lang=en

PENNOD 2 – ATAL DIGARTREFEDD YMHLITH POBL IFANC

"Dylai gwasanaethau ganolbwyntio ar atal digartrefedd yn gyntaf, ac yna delio ag achosion o ddigartrefedd statudol dim ond pan nad oes unrhyw ddewis arall."[19]

2.1 Mae Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi bod angen ceisio atal digartrefedd yn hytrach na delio ef fel problem ar wahân. Mae'n cydnabod nad oes llawer o awdurdodau lleol wedi rhoi blaenoriaeth i waith ataliol ac mae'n hyrwyddo dulliau 'gwario i gynilo' o atal y broblem a gweithredu dulliau 'opsiynau cartrefu'.

2.2 Roedd yr holl gyrff a roddodd dystiolaeth i ni'n cytuno y dylid rhoi blaenoriaeth uwch i ddigartrefedd a chawson dystiolaeth ynghylch nifer o wahanol bosibiliadau.

Ymyrryd yn gynnar

2.3 Clywsom dystiolaeth gan nifer o'r tystion ei bod yn hynod bwysig ymyrryd yn gynnar i atal digartrefedd. Crynhodd Stephen Gamgee o Gymuned Wallich Clifford bwysigrwydd ymyrryd yn gynnar:

It is true that the earlier you can intervene when somebody is in trouble, the more likely it is to prevent a long-term problem. In stressing the importance of early intervention, (and if it falls within the heading of youth homelessness it has already gone too far) one must not forget that services should still be provided to the people for whom life has been a long experience of disadvantage and exclusion[20].

Yn anffodus, roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn awgrymu mai anaml iawn y bydd hyn yn digwydd a phan fydd, bydd yn digwydd mewn ffordd ddigyswllt ac anghyson.

2.4 Eglurodd Pam Clutton o Bartneriaeth Merthyr fod llawer o'r bobl ifanc sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref eisoes wedi dod i sylw'r Adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd problemau gyda'u teuluoedd, addysg neu oherwydd eu bod wedi troseddu.[21]

2.5 Ymddengys nad oes unrhyw ddulliau cydgysylltiedig yn cael eu defnyddio i ddynodi'r bobl hyn fel pobl a allai fod yn agored i niwed, cyn iddynt eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref. Clywsom gan nifer o dystion am y problemau'n ymwneud â chael y sector gwirfoddol i gydweithio ag awdurdodau lleol ac i adrannau awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd i helpu'r bobl ifanc hynny sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref (gweler pennod 3). Ymddengys nad oes llawer o'r cyrff na'r awdurdodau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru wedi sefydlu dulliau o'r math hyn **cyn** i bobl

---

[19] *Y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd 2006 – 2008*, Llywodraeth Cynulliad Cymru Tachwedd 2005.
[20] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR(2)-15-06(p3)
[21] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 6 Rhagfyr 2006

ifanc fynd yn ddigartref. Amlygwyd hyn mewn ateb i gwestiwn yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr:

Sandy Mewies: Having listened to what you said, it is clear that intervention has to start early and has to go on for a considerable time, but it does not. At the moment, for the vulnerable young people who we know are in the system—whether with the voluntary or not-for-profit sector, or with social services—are there multi-agency case reviews at various points in their lives that will guide what happens next?

Ms Uche (Bernados Cymru): 'No' is the answer, but there are some practices that help to address it. Some of the services have a multi-agency problem-solving group of practitioners and resource managers who can make decisions about individual young people, so we present cases to that panel. …… We have developed practice, which needs recognising and maybe even paying for. However, the answer is 'no'.[22]

2.6 Credwn, wrth fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, ei bod yn hynod bwysig nodi'n gynnar y bobl ifanc hynny y mae posibilrwydd y gallent fod yn ddigartref yn ddiweddarach yn ystod eu hoes, a chymryd camau i ddelio â'r problemau a all arwain at ddigartrefedd. Gellid helpu'r bobl ifanc hyn yn fuan er mwyn osgoi argyfwng digartrefedd. Clywsom dystiolaeth mai dyma sy'n digwydd gyda phlant mewn gofal ym Merthyr Tudful, sy'n cael eu hasesu pan fyddant yn 12 a 13 oed i benderfynu ar yr hyn a allai eu niweidio yn y dyfodol[23].

2.7 Credwn y byddai'r modelau a gaiff eu defnyddio ym myd addysg (Llwybrau Dysgu[24]) ac iechyd (Cyfnodau Pontio Allweddol[25]), i ddatblygu llwybrau i unigolion sicrhau canlyniadau boddhaol, yn fodelau defnyddiol ar gyfer datblygu strategaethau ar gyfer pobl ifanc unigol sy'n dod i sylw Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, Timau Troseddau Ieuenctid neu'r Sector Gwirfoddol – pobl ifanc yr ystyrir y gallent fod yn agored i niwed.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gynlluniau llwybrau i blant a phobl ifanc y mae Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, Timau Troseddau Ieuenctid neu gyrff yn y sector gwirfoddol yn credu y gallent fod yn agored i niwed wrth iddynt dyfu. Dylid cynllunio'r llwybrau hyn i geisio sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc unigol yn cael y cyfle gorau bosibl i fyw bywyd llawn yng nghymdeithas y brif ffrwd.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer cynnal adolygiadau ar adegau allweddol ym mywyd person ifanc y nodwyd ei fod yn agored i niwed. Dylai'r adolygiadau hyn fod yn amlasiantaethol a dylent gael eu defnyddio i nodi adegau o argyfwng posibl ym mywyd y person ifanc yn ogystal â'r cymorth penodol sydd ei angen arno.

---

[22] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 6 Rhagfyr 2006 para 87
[23] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 6 Rhagfyr 2006 para 86
[24] *Llwybrau Dysgu 14-19 Canllawiau II,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2006
Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Medi 2005

Addysg

2. 8 Rydym yn croesawu'r dystiolaeth a gawsom gan nifer o'r cyrff, fod y mentrau addysg, sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael eu rhoi ar waith a'u bod yn cael derbyniad da. Dywedodd Shelter Cymru am y gwaith y maent yn ei wneud, a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad, i roi adnoddau addysgol yn ymwneud â thai a digartrefedd i athrawon[26].

2.9 Rydym wedi cael tystiolaeth yn ystod adolygiadau polisi blaenorol, yn enwedig y rheini'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ei bod yn effeithiol iawn cynnwys pobl sydd wedi dioddef oherwydd y materion sy'n cael eu dysgu a'u cael i siarad yn uniongyrchol am eu profiadau gyda'r disgyblion, wedi bod yn effeithiol iawn. Byddem yn falch pe bai'r dull hwn yn cael ei hybu wrth ddysgu disgyblion am y problemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd.

Cyfryngu

2.10 Un o'r mesurau ataliol yr oedd llawer o'r tystion yn ei hyrwyddo oedd cyfryngu. Os yw digartrefedd yn digwydd neu'n cael ei fygwth oherwydd bod person yn cael ei wahardd o'r cartref teuluol, clywsom y gall ymdrechion trydydd person i gyfryngu yn y sefyllfa fod yn fuddiol iawn yn aml. Gall proses gyfryngu rhwng tenant a landlord, lle mae bygythiad i'r tenant gael ei droi allan, hefyd helpu i osgoi achos o ddigartrefedd posibl.

2.11 Yn Abertawe, llwyddodd gwasanaeth cyfryngu teuluol Barnado's, fel rhan o Gynllun Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc BAYS, i osgoi digartrefedd yng nghyswllt 149 o'r 244 o'r bobl ifanc a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref rhwng mis Ionawr a mis Hydref 2006[27].

2.12 Mae Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau lleol a'u partneriaid i sefydlu cynlluniau cyfryngu yn eu hardaloedd er mwyn osgoi digartrefedd.

2.13 Rydym yn cydnabod nad yw cyfryngu yn addas ym mhob achos, yn enwedig lle nodir bod y person ifanc mewn perygl, ond credwn fod angen adeiladu ar lwyddiant amlwg y gwasanaethau cyfryngu a rhannu arferion da.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i holl awdurdodau lleol Cymru ddarparu gwasanaethau cyfryngu effeithiol ac o safon (yn hytrach na'u hannog i wneud hynny) gan ofalu eu bod ar gael i bobl ifanc ddigartref a phobl ifanc y mae posibilrwydd iddynt fod yn ddigartref.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro a gwerthuso llwyddiant y gwasanaethau cyfryngu a gaiff eu darparu ar gyfer pobl

[26] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 8 Tachwedd 2006 para 31
[27] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 6 Rhagfyr 2006 para 31 SJR(2)-17-06(p2)

ifanc ddigartref yng Nghymru yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i lwyddo.

2.14 Gofynnwyd i grŵp o bobl ifanc ddigartref yn Ne Cymru beth wnaethon nhw pan oeddynt yn ddigartref am y tro cyntaf[28]. Dyma'u hatebion:

> Ffonio'r heddlu a ffoniodd hwythau'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
> Rhedeg o lefydd nad oeddynt yn fy ardal;
> Dweud wrth athro – a gysylltodd â Llamau;
> Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth i'w wneud pan fyddant yn ddigartref;
> Mynd at y Cyngor ond bu'n rhaid aros am 4 awr cyn gweld rhywun. Yna cael fy rhoi y tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

2.15 Cawsom fraw o sylweddoli mai dim ond un ohonynt oedd yn gwybod y dylent fynd at yr awdurdod lleol ac roedd y ffordd y cawsant eu trin yn peri pryder i ni. Clywsom yr un stori gan grwpiau eraill o bobl ifanc ddigartref yng Ngogledd Cymru – nid oeddynt yn gwybod beth i'w wneud ac yn aml, pobl ifanc eraill fyddai'n dweud wrthynt.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi arferion da o ran rhannu gwybodaeth am wasanaethau i bobl ifanc ddigartref a dylai sicrhau bod yr arferion da hyn yn cael eu rhannu ymhlith awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

2.16 Clywsom dystiolaeth gan nifer o dystion bod yr oedrannau a ddefnyddir i benderfynu ar anghenion i roi blaenoriaeth iddynt yn rhy fympwyol a'u bod yn gweld pobl mor ifanc â 14 yn eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref. Mae pryder hefyd fod y rheoliadau sy'n pennu pa oedran y dylai person ifanc fod i'w angen fod yn flaenoriaeth, gyfeirio at ei oed cronolegol yn unig ac nad yw'n ystyried ei ddatblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol.

2.17 Yn Abertawe, lle mae prosiect ar y gweill i ddelio â digartrefedd ymhlith pobl ifanc drwy bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol, caiff pobl ifanc ddigartref 16 ac 17 oed eu trin fel pobl ifanc anghenus o dan ddeddfwriaeth gofal plant yn hytrach na deddfwriaeth digartrefedd. Golyga hyn fod ystod ehangach o wasanaethau ar gael iddynt a chânt gymorth hefyd os cânt eu rhoi mewn llety gwely a brecwast.

2.18 Rydym yn croesawu ffyrdd arloesol fel hyn o ddatrys problemau digartrefedd ymhlith pobl ifanc.

Argymhelliad 11: Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio dulliau arloesol o ddelio â phobl ifanc ddigartref dan 18 oed; er enghraifft, model Abertawe sy'n defnyddio'r Ddeddf Plant yn hytrach na deddfwriaeth digartrefedd.

Argymhelliad 12: Dylai Awdurdodau Lleol Cymru adolygu'r ffordd y caiff deddfwriaeth digartrefedd ei defnyddio ar gyfer pobl ifanc ddigartref 25

[28] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR(2)-17-06(p11)

oed neu iau a cheisio cynnwys gymaint o adrannau awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol, fel y bo'n briodol, yn eu gofal.

Cyfrifoldebau awdurdodau lleol

2.19 Clywsom gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a nifer o awdurdodau lleol am y gwelliannau a wnaed o ran darparu gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref. Mae newidiadau mewn deddfwriaeth a phwyslais cynyddol o du Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fynd i'r afael â digartrefedd wedi arwain at gynnydd yn y nifer o geisiadau gan bobl ifanc a gaiff eu derbyn[29].

2.20 Clywsom hefyd gan CLlLC fod llawer o waith i'w wneud eto i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Ategwyd hyn gan nifer o gyrff yn y sector gwirfoddol a ddywedodd wrthym fod lefel ac ansawdd y gwasanaeth y mae awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru yn ei ddarparu yn amrywio'n arw ac yn anghyson.

2.21 Roedd pryder ynglŷn â defnyddio dulliau'n seiliedig ar opsiynau cartrefu a phroblem 'digartrefedd bwriadol'.

Opsiynau Cartrefu

2.22 O'i ystyried fel rhan o'r pecyn cymorth i atal digartrefedd, amcan y dull o ystyried opsiynau cartrefu yw trafod y posibiliadau gyda chleientiaid i weld pa un yw'r mwyaf addas i berson sy'n cyflwyno'i hun yn ddigartref neu y mae posibilrwydd iddo fod yn ddigartref. Mae Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awgrymu bod yr ateb i'w gael yn aml yn y sector rhentu preifat.

2.23 Dywedodd llawer o gyrff y sector gwirfoddol wrthym eu bod yn amheus o'r dull o ystyried opsiynau cartrefu.

2.24 Roedd Shelter Cymru yn pryderu bod y dull o ystyried opsiynau cartrefu'n golygu nad yw nifer o'r bobl sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol i gyflwyno'u hunain yn ddigartref, neu oherwydd bod posibilrwydd y byddant yn ddigartref, yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau digartrefedd ac na ddefnyddir y strwythurau ffurfiol ar gyfer y digartref i ddelio â nhw. Roeddynt yn awgrymu hefyd y gallai'r dull hwn hefyd atal pobl rhag cysylltu ag awdurdodau lleol gan eu bod yn poeni am gael eu gorfodi i ddychwelyd gartref neu i gymryd tenantiaeth anaddas[30].

2.25 Roedd llawer o'r tystion yn pryderu bod y sector rhentu preifat hefyd yn aml yn anaddas ar gyfer pobl ifanc. Yn aml, nid yw'r system budd-daliadau yn caniatáu i bobl dan 25 oed gael digon o fudd-dal i dalu rhent (gweler y drafodaeth isod). Yn aml iawn, nid oes gan nifer o'r bobl ifanc sy'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd y sgiliau bywyd i'w galluogi i fyw ar eu pennau eu

[29] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR(2)-17-06(p5)
[30] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 8 Tachwedd 2006 para 12

hunain heb gymorth nac i ddelio â chytundebau tenantiaeth a materion ariannol. Os byddant yn troi at y sector rhentu preifat bydd hynny'n aml yn arwain at gylch o ddigartrefedd gan nad ydynt yn gallu ymdopi'n ariannol na byw heb gymorth.

2.26 Clywsom fod Adrannau Tai mewn rhai awdurdodau lleol, fel Sir Gaerfyrddin ac Abertawe, yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Plant pan fyddant yn gweithio gyda phobl ifanc y mae posibilrwydd iddynt fod yn ddigartref. Golyga hyn eu bod yn gallu nodi amrywiaeth o broblemau, nid digartrefedd yn unig, a pharatoi cynlluniau gweithredu unigol i bob person ifanc.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r ffordd y caiff y dull o ystyried opsiynau cartrefu ei ddefnyddio yng nghyswllt pobl dan 25 oed a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu dulliau traws-sector o ddelio â nhw.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei Strategaeth Digartrefedd a'i chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn ystyried y dystiolaeth nad yw'r sector rhentu preifat bob amser yn ddewis addas yng nghyswllt cartrefu pobl ifanc ddigartref. Dylent weithio'n agos â landlordiaid preifat i ofalu bod unrhyw lety a ddefnyddir i gartrefu pobl ifanc ddigartref yn addas.

Digartrefedd Bwriadol

2.27 Gall awdurdod lleol benderfynu na fydd yn rhoi llety i berson ifanc digartref os ydynt o'r farn ei fod wedi gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol. Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol yn pwysleisio'r angen i awdurdodau lleol ystyried pob achos unigol o ddigartrefedd wrth benderfynu a yw person ifanc wedi gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol ai peidio gan ddweud:

> Rhaid i awdurdodau tai beidio â mabwysiadu polisïau cyffredinol sy'n ceisio rhagddiffinio amgylchiadau sydd, neu nad ydynt, yn gyfystyr â digartrefedd bwriadol neu fygythiad o ddigartrefedd[31].

2.28 Clywsom gan nifer o dystion eu bod yn pryderu ynghylch nifer y bobl y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn penderfynu eu bod wedi gwneud eu hunain yn ddigartref yn fwriadol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Clywsom dystiolaeth gan Shelter Cymru y gellir penderfynu bod pobl ifanc yn ddigartref yn fwriadol oherwydd nad ydynt yn dychwelyd gartref yn brydlon[32]. Dywedodd Wallich Clifford y penderfynodd rhai awdurdodau lleol fod pobl ifanc yn ddigartref yn fwriadol oherwydd iddynt wrthod gwasanaeth cyfryngu[33].

---

[31] *Cod Canllawiau i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety i'r digartref.* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2003.
[32] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 8Tachwedd 2006 para 23
[33] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 8Tachwedd 2006 para 205

2.29 Os penderfynir bod person ifanc wedi gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol, does dim cyfrifoldeb ar awdurdod lleol i roi llety iddynt am ragor na 28 diwrnod. Ar ôl hynny, mae'n rhaid iddynt gael hyd i lety eu hunain.

2.30 Clywsom nifer o awgrymiadau ynglŷn â sut y dylid trin y rheini sy'n ddigartref yn fwriadol. Yn yr Alban, mae gan awdurdodau lleol bŵer i helpu pobl sy'n ddigartref yn fwriadol yn hytrach na dyletswydd i ymchwilio i weld a yw person wedi gwneud ei hun yn ddigartref yn fwriadol. Caiff teuluoedd digartref yn fwriadol yn yr Alban gymorth i gael hyd i lety arall a chânt Denantiaeth Sicr Fer yr Alban gyda'r gwasanaethau cymorth tai am hyd at 12 mis[34]..

2.31 Awgrymodd Barnado's Cymru na ddylid defnyddio'r term 'bwriadol' ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed nad ydynt bob amser yn sylweddoli beth fydd canlyniadau'r hyn y maent yn ei wneud.

2.32 Yn eu tystiolaeth, dywedodd CLlLC fod canran y rheini y penderfynwyd eu bod yn ddigartref yn fwriadol yng Nghymru wedi aros yn gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef 5% o'r ceisiadau. Gan fod nifer y ceisiadau wedi cynyddu bob blwyddyn hyd at 2005 mae hyn yn golygu bod cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr digartref y tybir eu bod yn ddigartref yn fwriadol.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio'r egwyddorion y glynir wrthynt wrth benderfynu a yw pobl ifanc yn ddigartref yn fwriadol a dylid cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i ofalu nad yw annhegwch ac anghydraddoldeb yn digwydd.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â'i chydweithwyr yn San Steffan, archwilio sut y gallai gael pwerau i newid y ddeddfwriaeth yng Nghymru mewn perthynas â bwriad er mwyn rhoi'r un gofynion i awdurdodau lleol Cymru ag a roddir i awdurdodau lleol yr Alban yng nghyswllt pobl dan 25 oed (h.y. na ddylid gorfod ystyried a oedd unrhyw fwriad i fod yn ddigartref).

[34] Deddf Digartrefedd etc (yr Alban) 2003

PENNOD 3 – TAI A BUDD-DALIADAU

3.1 Clywsom gan ein holl dystion am y problemau a all godi oherwydd y prinder llety sydd ar gael i bobl ifanc. Roedd nifer o resymau dros y prinder llety gan gynnwys:

- Prinder stoc dai awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;
- Prinder tai rhent preifat fforddiadwy;
- Prinder llety dros nos;
- Prinder hosteli;
- Prinder tai â chymorth;
- Prinder llety ar gyfer pobl ifanc yn benodol;
- Prinder llety addas ar gyfer pobl ifanc ddigartref sy'n anabl
- Pridner llety 'symud ymlaen.'

3.2 Gall prinder tai addas greu digartrefedd ymhlith pobl ifanc gan nad ydynt yn aml yn gallu fforddio rhentu lle na phrynu eu cartref eu hunain. Y mae hefyd yn rhwystr arwyddocaol yn yr ymdrech i ddarparu gwasanaeth da, o safon uchel i bobl ifanc sy'n eu cael eu hunain yn ddigartref. Clywsom gan lawer o dystion fod hosteli a thai â chymorth yn orlawn â phobl sydd am symud i lety arall ond sy'n methu gwneud hynny oherwydd prinder llety addas i'w helpu i symud ymlaen. Mae hyn yn lleihau nifer y llefydd dros dro sydd ar gael a gall arwain at bwysau cynyddol ar lochesi dros nos a rhagor o bobl ifanc yn byw ar y stryd.

3.3 Y sector gwirfoddol sy'n darparu llawer o'r tai ar gyfer pobl ifanc ddigartref ac maent ar gael drwy awdurdodau lleol, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, a thrwy'r sector gwirfoddol ei hun.

3.4 Clywsom gan Gyngor Sir Ddinbych am eu pryderon difrifol am y prinder tai cyngor sydd ar gael i bobl ddigartref. Yn ystod 2006, roedd ganddynt 20 o fflatiau awdurdod lleol a oedd yn addas i'w rhentu i bobl sengl rhwng 16 a 60. Yn ystod y flwyddyn roedd dyletswydd arnynt i gartrefu 32 o bobl ifanc sengl dan 15 oed a'u cyflwynodd eu hunain yn ddigartref.

3.5 Dadleuodd nifer o dystion naill ai y dylid gohirio'r cynllun Hawl i Brynu neu y dylid defnyddio'r elw i adeiladu tai addas ar gyfer pobl ddigartref yn benodol.

3.6 Roedd llawer o gyrff y sector gwirfoddol y clywsom ganddynt yn darparu cyfran go fawr o dai ar gyfer pobl ifanc. Roedd y rhain yn amrywio o hosteli, unedau byw â chymorth, i gymdeithasau tai.

3.7 Er bod y categorïau o bobl ddigartref y mae dyletswydd ar awdurdodau lleol eu cartrefu wedi cynyddu, a bod nifer y bobl sy'n eu cyflwyno'u hunain yn ddigartref wedi cynyddu hefyd, mae stoc dai awdurdodau lleol wedi lleihau o ganlyniad i'r cynllun Hawl i Brynu a does dim digon o dai cymdeithasol eraill ar gyfer chwaith.

Mae'r argymhelliad a ganlyn yn cynrychioli barn mwyafrif y Pwyllgor. Nid oedd dau aelod o'r Pwyllgor yn derbyn yr argymhelliad ar y ffurf hon a byddai'n well ganddynt pe bai wedi'i eirio'n wahanol.

Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau â'r trafodaethau â Llywodraeth y DU yng nghyswllt cael pwerau i atal y cynllun Hawl i Brynu yng Nghymru.

3.8 Roedd pryder hefyd ynghylch trosglwyddo'r stoc dai. Roedd enghreifftiau o Loegr o ganlyniadau da a gwael o ran darparu llety i bobl ddigartref yn dilyn cynlluniau i drosglwyddo stoc.

3.9 Cawsom ein hannog gan nifer o dystion i sicrhau bod unrhyw gynlluniau trosglwyddo stoc yng Nghymru yn cynnwys cytundeb pendant sy'n ymrwymo'r landlordiaid newydd i ddarparu tai ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed.

Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cymorth llawn i awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw gytundebau trosglwyddo stoc yn cynnwys ymrwymiad cytundebol i ddarparu tai i grwpiau sy'n agored i niwed.

3.10 Ni chafodd llety Gwely a Brecwast ei ddefnyddio mor aml ar gyfer pobl ddigartref yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd polisi penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae *Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006* yn cyfyngu ymhellach ar ddefnyddio llety o'r math hwn i rhwng 2 a 6 wythnos ar gyfer grwpiau penodol (gan gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed a'r rheini yr ystyrir eu bod mewn angen oherwydd eu bod yn agored i niwed). Er y gall defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc ddigartref fod yn dderbyniol fel ateb tymor byr, derbynnir yn gyffredinol nad yw llety Gwely a Brecwast yn addas i lawer o bobl ifanc ddigartref gan mai prin yw'r cyfleusterau a'r cymorth y maent yn eu cynnig.

3.11 Rydym yn pryderu bod llety Gwely a Brecwast yn dal i gael ei ddefnyddio am gyfnod hir i rai pobl ifanc ddigartref mewn rhai amgylchiadau.

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog a rhoi cymorth i bob awdurdod lleol yng Nghymru i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio llety Gwely a Brecwast ar gyfer pobl ifanc ddigartref dan 25 oed am fwy na 2 i 6 wythnos.

3.12 Roedd yr holl dystion yn bryderus ynglŷn â phrinder hosteli a phrinder llochesi dros nos. Roedd yn annigonol mewn nifer o ddinasoedd a threfi ond nid oedd llety o'r math hwn ar gael o gwbl mewn llawer o ardaloedd cefn gwlad. Golygai hyn fod pwysau ychwanegol yn cael ei roi ar welyau ac adnoddau mewn ardaloedd trefol wrth i bobl symud yno o ardaloedd cefn gwlad lle nad oes cyfleusterau i'r digartref. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Tachwedd, gofynnwyd i Cymorth Cymru amcangyfrif faint o welyau ychwanegol yr oedd eu hangen mewn llochesi dros nos, hosteli a llety â chymorth. Yn ôl eu hamcangyfrif, roedd angen rhwng 150 a 170 o welyau ychwanegol.

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i nifer y gwelyau sydd ar gael ar gyfer bobl ifanc ddigartref yng Nghymru ac ystyried ffyrdd o ariannu gwelyau ychwanegol.

3.13 Clywsom fod pobl ifanc ddigartref fel arfer yn cael eu rhoi mewn llety ar gyfer pobl o bob oed i ddechrau. Gall pobl ifanc fod yn arbennig o agored i niwed pan fyddant yn rhannu llety â phobl hŷn, ac mae'n hawdd iddynt hefyd gael eu dylanwadu gan bobl hŷn. Gall hyn arwain at gamddefnyddio sylweddau ac mae'n bosibl hefyd y bydd pobl yn manteisio'n rhywiol neu'n ariannol arnynt.

3.14 Yn yr ardaloedd lle mae llety ar gael yn benodol ar gyfer pobl ifanc ddigartref, y sector gwirfoddol sy'n ei ddarparu bron yn ddieithriad, yn aml gydag arian ychwanegol gan yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.15 Rydym yn pryderu nad yw llety a chyfleusterau ar gael yn benodol ar gyfer pobl ifanc neu nad oes digon ohonynt ar gael ym mhob ardal yng Nghymru.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, archwilio nifer y lleoedd sydd ar gael yn benodol ar gyfer pobl ifanc ddigartref a dylai lunio strategaeth i gynyddu nifer y lleoedd hyn yn ôl y galw.

3.16 Er bod llawer o'n tystion yn cytuno bod problemau pobl ifanc ddigartref yn gyffredinol debyg i broblemau oedolion digartref, roedd thema gref yn ymddangos, sef bod angen cymorth i fyw ar bobl ifanc ddigartref ynghyd â chymorth gyda nifer o broblemau amrywiol yn aml iawn.

3.17 Roedd yn galonogol clywed tystiolaeth ynglŷn ag arferion da yng nghyswllt darparu llety byw â chymorth i bobl ifanc ddigartref. Mae cyrff fel GISDA yng Ngogledd Cymru, Llamau yn Ne-ddwyrain Cymru a Chymuned Wallich Clifford ledled Cymru yn cynnig tai â chymorth a chymorth i bobl ifanc mewn tai sy'n cael eu rhentu'n breifat. Maent nid yn unig yn mynd i'r afael â digartrefedd ond hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc i'w cynorthwyo â phob agwedd ar eu tenantiaeth, i feithrin sgiliau bywyd, i fagu hyder ac i archwilio'r posibiliadau ar gyfer y dyfodol.

Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi arferion da o ran darparu llety â chymorth i bobl ifanc ddigartref. Dylai ddefnyddio'r arferion da hynny i baratoi model strategol ar gyfer darparu llety â chymorth i bobl ifanc ddigartref ar hyd a lled Cymru.

3.18 Fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, mae llawer yn credu mai llety rhent preifat yw'r ateb i broblem ddigartrefedd. Roedd llawer o'r tystion o'r farn mai dewis llai derbyniol oedd hwn o safbwynt pobl ifanc am sawl rheswm:

- Mae landlordiaid preifat yn aml yn anfodlon derbyn pobl ifanc ddigartref fel tenantiaid gan eu bod yn ofni y byddant yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn methu talu'r rhent;
- Mae llety rhent preifat yn aml yn rhy ddrud i bobl ifanc fedru ei fforddio, mae'r system budd-dal tai'n cael ei drafod isod;
- Yn aml iawn, nid oes gan bobl ifanc ddigartref y sgiliau i reoli eu harian ac i ddeall telerau cytundebau tenantiaeth;
- Mae'n bosibl na chaiff pobl ifanc gymorth mewn llety rhent preifat;
- Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl ifanc ddigartref ddigon o arian i dalu rhent ymlaen llaw i sicrhau tenantiaeth;
- Mae prinder llety rhent preifat mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd gwyliau poblogaidd.

3.19 Mae ffyrdd gwahanol o ddatrys y problemau hyn yn cael ei defnyddio ar hyd a lled Cymru:

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi arian i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau bond i bobl ddigartref er mwyn medru sicrhau tenantiaeth iddynt;
- Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd yn disgwyl i awdurdodau lleol archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cynlluniau rhent ymlaen llaw a chynlluniau blaendal i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r sector rhent preifat;
- Mae llawer o gyrff y sector cyhoeddus yn cynnig cynlluniau bond a chymorth i bobl ifanc ddigartref mewn llety rhent preifat;
- Mae'r unedau byw â chymorth y mae llawer o'r mudiadau gwirfoddol yn eu cynnig yn ceisio helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau a fydd yn eu galluogi i reoli eu harian a'u cytundebau tenantiaeth;
- Mae llawer o awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai i gynnig tenantiaeth â chymorth i bobl ifanc ddigartref;
- Nid yw'r denantiaeth 6 mis bresennol yn cael ei ystyried yn gyfnod digon hir ar gyfer llety sefydlog.

Er bod y cynlluniau bond yn cael eu defnyddio gan nifer o awdurdodau lleol ac asiantaethau yn y sector gwirfoddol, cawsom dystiolaeth nad yw cynlluniau talu rhent ymlaen llaw a blaendaliadau'n cael eu defnyddio'n eang. Dywedodd pobl ifanc ddigartref mai'r ffaith eu bod yn methu talu rhent ymlaen llaw oedd yn eu rhwystro rhag sicrhau tenantiaeth breifat. Clywsom fod cynlluniau talu rhent ymlaen llaw a blaendaliadau'n cael derbyniad da gan landlordiaid a phobl ifanc pan gânt eu defnyddio.

3.20 Awgrymwyd y dylid defnyddio cynllun achredu landlordiaid i sicrhau bod llety rhent preifat o safon yn cael ei gynnig i bobl ifanc ddigartref, a chaiff y landlordiaid hwythau daliadau bond a/neu rent uniongyrchol[35].

3.21 Awgrymodd Shelter Cymru y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu pe bai'r cynigion presennol ar gyfer diwygio daliadaeth yn cael eu derbyn h.y. dileu

[35] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

prydlesau tymor byr a'r posibilrwydd o roi 2 fis o rybudd i denantiaid adael eu llety unrhyw adeg yn ystod eu tenantiaeth. Awgrymwyd y gellid cyflwyno prydlesau tymor byr am gyfnod o flwyddyn yng Nghymru[36].

Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio sut y gall ddefnyddio'r pwerau newydd a gaiff ym mis Mai 2007 i gyflwyno system tenantiaeth fyrddaliol.

3.22 Rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto i ofalu bod llety rhent preifat o fewn cyrraedd pobl ifanc ddigartref. Y system budd-daliadau yw un o'r rhwystrau mwyaf yn y cyswllt hwn.

Budd-daliadau Tai

3.23 Er nad yw'r system budd-daliadau wedi'i ddatganoli, daeth yn amlwg yn ystod yr adolygiad, mai dyma oedd y prif rwystr i bobl ifanc o ran cael llety addas.

3.24 Mae'r gostyngiad yng nghyfradd cymhorthdal incwm i bobl ifanc 16 ac 17 oed a'r Cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl[37], yn golygu nad yw pobl dan 25 oed heb blant dibynnol, yn cael gymaint o Fudd-dal Tai â phobl 25 oed a throsodd, a disgrifiwyd hyn fel system annheg sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ifanc.

3.25 Mae clymblaid o gyrff y sector gwirfoddol, gan gynnwys Shelter, Crisis a Chyngor ar Bopeth, wedi galw ar y Llywodraeth i ddefnyddio'r *Mesur Diwygio Lles*[38] i ddileu'r cyfyngiad rhent ystafell sengl (neu ystafell a rennir) sy'n berthnasol i bobl sengl dan 25 oed sy'n hawlio budd-dal tai. Dadleuant fod y rheol hon, sy'n seiliedig ar sail oed a statws priodasol, yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ifanc, a bod y cyfyngiad yn rhoi pobl ifanc mewn mwy o berygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol ac yn ariannol, gan ei gwneud hi'n anoddach iddynt gael hyd i waith[39].

3.26 Cytunwn yn llwyr â'r farn hon a chawsom ein synnu o glywed bod Cymorth Cymru wedi derbyn y datganiad a ganlyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau:

> "We have no plans to abolish this (Single Room Rent Restriction), as while we recognise your concerns we believe that its abolition could result in single, young people on benefits being able to afford a level of housing that their working peers could not[40]".

---

[36] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 8 Tachwedd 2006 para 62

[37] Cyflwynwyd y Cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl ym mis Hydref 1996 o dan *Reoliadau Diwygio Budd-dal Tai (Cyffredinol) 1996* . Mae'n berthnasol i bobl sengl heb blant dan 25 oed ac roedd yn wreiddiol yn cyfyngu'r rhent cymwys i hynny y tybiwyd ei fod yn addas ar gyfer llety ystafell sengl, gyda chegin a thoiled i'w rhannu, yn yr ardal leol. Ym mis Gorffennaf 2001, ehangodd Llywodraeth y DU ei gwmpas i gynnwys ystafell fyw a oedd yn cael ei rhannu.

[38] Cafodd y Mesur Diwygio Lles ei drosglwyddo o'r Sesiwn flaenorol 2005/06 o dan Reol Sefydlog Tŷ'r Cyffredin 80A ar 16 Tachwedd 2006:
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200607/cmbills/001/07001.i-iv.html

[39] *Single Room Rent – The Case for Abolition*, October 2006. Ar gael ar:
http://www.citizensadvice.org.uk/singleroomrent4_final.pdf

[40] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR(2)-15-06(p2)

Teimlwn yn gryf fod y cyfyngiad hwn yn gwahaniaethu'n bendant yn erbyn pobl ifanc a chawsom ein synnu o glywed bod y Cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl wedi'i eithrio o'r rheoliadau gwahaniaethu ar sail oed a gyflwynwyd yn ddiweddar[41].

Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gyflwyno sylwadau'r cryfaf i Lywodraeth y DU i ddileu'r Cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl.

Argymhelliad 25: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio sut y gall ddefnyddio'r pwerau newydd a gaiff ym mis Mai 2007 i roi arian ychwanegol i bobl ifanc dan 25 oed i ychwanegu at y Rhent Ystafell Sengl. Dylid ystyried hyn fel mesur dros dro a dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i annog eu cydweithwyr yn San Steffan yn gryf i newid deddfwriaeth sylfaenol.

3.27 Soniodd llawer o'n tystion hefyd am y Mesur Diwygio Lles presennol. O dan gynigion y Mesur, bydd Lwfans Tai Lleol, ar gyfradd unffurf, yn disodli'r Budd-dal Tai i'r rheini yn y sector rhent preifat. Bydd hyn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r tenant yn hytrach nag i'r landlord, fel sy'n digwydd yng nghyswllt Budd-dal Tai yn awr. Roedd pryder y byddai hyn yn lleihau nifer y landlordiaid a fyddai'n barod i gartrefu pobl ifanc ddigartref ac y gallai arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan oherwydd dyledion rhent.

3.28 Clywsom hefyd am bryderon ynglŷn â chyfyngiadau'r system budd-daliadau yng nghyswllt pobl ifanc ddigartref sy'n cael gwaith neu'n sy'n dechrau astudio fel myfyrwyr. Yn y ddau achos, mae'r newidiadau yn eu Budd-dal Tai yn amharu'n ddifrifol ar eu gallu i dalu rhent mewn hosteli neu lety myfyrwyr a chael digon o arian i fyw arno. Rydym wedi clywed am nifer o achosion lle mae pobl ifanc wedi gorfod gwrthod lle mewn coleg neu wrthod gwaith oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio'r gostyngiad mewn budd-daliadau.

Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i drafod gyda'u cydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau i geisio mynd i'r afael â'r anghysonderau yn y system budd-daliadau sy'n effeithio ar bobl ifanc ddigartref yng Nghymru.

[41] Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) 2006 – Offeryn Statudol Rhif 2006/1031

PENNOD 4 – MATERION ERAILL

4.1 Er mai prinder tai yw un o'r prif broblemau yng nghyswllt digartrefedd ymhlith pobl ifanc, mae llawer o faterion eraill yn effeithio arno ac mae angen mynd i'r afael â nhw.

Pobl ifanc sy'n gadael gofal neu garchar a chyn-droseddwyr

4.2 Clywsom dystiolaeth a oedd yn peri cryn ofid i ni ynghylch y gyfran fawr o bobl ifanc ddigartref yng Nghymru a oedd wedi bod drwy'r system ofal neu wedi bod yn y carchar (neu, mewn rhai achosion, y ddau).

4.3 Dywedodd Voices from Care wrthym fod rhwng chwarter a thraean o bobl ddigartref ym Mhrydain wedi treulio amser mewn gofal pan oeddynt yn blant a bod pobl ifanc sy'n gadael gofal 60 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddigartref na phobl ifanc nad ydynt wedi bod mewn gofal[42].

4.4 Er bod gan bob awdurdod lleol gyfrifoldebau rhianta corfforaethol dros blant 'sy'n derbyn gofal' a phlant sy'n gadael gofal, mae Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod:

> Fodd bynnag, gall anghytuno rhwng adrannau cynghorau olygu nad yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Prin yw'r bobl ifanc hynny sydd yn awr yn ddigartref pan fyddant yn gadael gofal, ond mae gormod ohonynt yn gorfod aros am gyfnodau rhy hir mewn llety gwely a brecwast, ac wedi cael trafferth cael a chadw llety addas parhaol.

4.5 Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn aml yn agored i niwed emosiynol ac nid oes ganddynt y sgiliau bywyd na'r aeddfedrwydd emosiynol i fyw ar eu pennau eu hunain. Dyma ddywedodd pobl ifanc a oedd wedi gadael gofal wrthym:

> Rydych chi'n cyrraedd 16 oed a does neb yn hidio dim. Mi ges i fflat pan oeddwn yn 16 a chefais i ddim help – es i'n gaeth i gyffuriau.
>
> Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu rhoi mewn llety Gwely a Brecwast gan… y Gwasanaethau Tai. Roedd yn fudr, yn damp a doedd dim help i'w gael o gwbl. Roedd llawer o bobl yno a oedd yn gaeth i gyffuriau a phobl a oedd newydd ddod allan o'r carchar.

4.6 Rydym o'r farn ei bod yn gwbl annerbyniol nad yw pobl ifanc fel hyn, sydd mor agored i niwed, yn cael cymorth ar ôl iddynt adael y system gofal.

Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati ar fyrder i adolygu ei pholisïau a'i chanllawiau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol i gynhyrchu, gweithredu a monitro cynlluniau cymorth unigol i bob person ifanc sy'n gadael gofal.

[42] Pwyllgor Rhanbarth Canol De Cymru 10 Tachwedd 2006

4.7 Er na chawsom unrhyw ffigyrau, mae NACRO yn cydnabod mai cael hyd i le i fyw yw un o'r prif broblemau sy'n wynebu cyn-droseddwyr. Mae cydgysylltiad cydnabyddedig rhwng aildroseddu a digartrefedd ac wrth asesu ceisiadau gan bobl ddigartref, mae cyn-droseddwyr yn awr yn un o'r categorïau o bobl y mae eu hangen yn flaenoriaeth. Gall cyn-droseddwyr ddod ar draws rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael llety yn y sector rhentu preifat ac yn aml iawn nid oes ganddynt sgiliau cymdeithasol na sgiliau byw ar ôl treulio amser mewn carchar. Mae'n bosibl hefyd na fyddant yn gallu dychwelyd i'w hardal leol a chlywsom dystiolaeth am rai awdurdodau lleol sydd â chynlluniau cyfnewid.

4.8 Dywedodd NACRO wrthym am eu gwaith gyda chyn-droseddwyr yng Ngogledd Cymru[43]. Roedd problemau'r rhain yn un fath â phroblemau'r rheini a oedd yn gadael gofal, yn enwedig y broblem llety Gwely a Brecwast.

4.9 Mae ganddynt wasanaeth llwyddiannus yn cynllunio cymorth unigol i helpu defnyddwyr gwasanaeth i sylweddoli beth yw eu hanghenion ac i feithrin sgiliau byw'n annibynnol. Maent yn datblygu pecyn cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac maent yn paratoi cynllun i gynnwys landlordiaid preifat yn y gwaith o ddarparu llety â chymorth. Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Llywodraeth Ganolog sy'n ariannu'r prosiectau hyn.

4.10 Rydym o'r farn bod prosiect NACRO yn dangos sut mae modd defnyddio arian yn greadigol a sut y gellid defnyddio'r prosiect fel model ar gyfer prosiectau eraill i fynd i'r afael â digartrefedd.

Bywydau di-drefn

4.11 Yn ychwanegol at y problemau'n gysylltiedig â chael hyd i gartref addas, clywsom fod llawer o bobl ifanc ddigartref yn dilyn bywydau di-drefn. Canlyniad camddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl yw hyn yn aml. Mae gan lawer ohonynt ddiagnosisau lluosog sy'n golygu bod ganddynt fwy nag un broblem.

4.12 Er mai'r rhain yw'r rhai mwyaf agored i niwed ymhlith pobl ifanc ddigartref, cytunodd yr holl dystion mai'r rhain yw'r anoddaf i ddelio â nhw gan nad oes ganddynt fawr ddim hunan-barch na sgiliau byw ac ystyrir yn aml eu bod yn ymddwyn yn anghymdeithasol ac y gallant fod yn troseddu.

4.13 Mae'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc ddigartref sydd â bywydau di-drefn yn amrywio'n helaeth ar hyd a lled Cymru. Eu prif angen yw llety â chymorth a chymorth i ddelio â'u problemau. Clywsom y gall fod yn anodd cael llety â chymorth i bobl ifanc ddigartref sydd â bywydau di-drefn oherwydd nad yw pobl am weld llety o'r fath yn eu cymdogaeth nhw. Dyma ddywedodd Barnardos Cymru wrthym:

> One of the points that I wanted to pick up on was that you asked how we can protect those living some of the most chaotic lifestyles. What we need to do, first of all—and

[43] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR(2)-17-06(p3)

> this is social services and all of us—is recognise that they need protection, because there is another view, namely that they need locking up or issuing with anti-social behaviour orders. The first step is recognising that they need protection[44].

4.14 Caiff problemau pobl ifanc ddigartref sy'n gaeth i gyffuriau eu trin mewn ffyrdd gwahanol, gydag ambell hostel a llety â chymorth yn caniatáu iddynt ddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn yr adeilad tra bo eraill yn gwrthod caniatáu iddynt wneud hynny.

4.15 Mae'r rheini sydd â bywydau di-drefn hefyd yn ei chael hi'n anodd manteisio ar wasanaethau iechyd. Mae hi'n anodd rhoi cyfeiriad wrth geisio trefnu apwyntiad a chlywsom hefyd mai ychydig iawn o wasanaethau iechyd sy'n delio'n benodol â phobl ddigartref.

4.16 Clywsom gan Dr Kay Saunders am ei gwaith gyda phobl ifanc ddigartref yn ei phractis yng Nghaerdydd. Ystyriodd fod lefel uchel y cymorth sydd ei angen ar bobl ddigartref yn aml yn atal nifer o Feddygon Teulu rhag cytuno i'w cynnwys ar eu rhestr. Yn ôl ei hamcangyfrif hi, roedd 15% o'r rheini ar ei rhestr yn bobl ddigartref ond roeddynt yn cyfrif am oddeutu 50% o'i llwyth gwaith. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt broblemau gydag alcohol neu gyffuriau neu broblemau iechyd meddwl.

4.17 Dr Saunders yw'r unig Feddyg Teulu yng Nghymru i gael ei chomisiynu i ddarparu gwasanaeth ychwanegol i bobl ddigartref fel rhan o'i chontract.

4.18 Rydym o'r farn ei bod o'r pwys mwyaf sicrhau bod gwasanaethau a thriniaethau iechyd ar gael i bobl ifanc sydd â bywydau di-drefn er mwyn iddynt gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Rydym yn siomedig nad oes rhagor o gontractau meddygon teulu'n cael eu defnyddio i helpu pobl ddigartref yng Nghymru a byddem yn annog meddygon teulu eraill i archwilio'r llwybr y mae Dr Saunders yn ei ddilyn.

Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio ffyrdd o roi arian ychwanegol i wasanaethau Meddyg Teulu sydd ar gyfer pobl ddigartref yn benodol a dylai annog rhagor o Feddygon Teulu yng Nghymru i ddefnyddio'r cytundeb Meddygon Teulu i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i bobl ifanc ddigartref.

Digartrefedd yng nghefn gwlad

4.19 Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, daeth Cymuned Wallich Clifford i'r casgliad fod y materion sy'n gysylltiedig â digartrefedd yng nghefn gwlad yn debyg i'r problemau mewn ardaloedd trefol, ond nad ydynt mor weladwy mewn ardaloedd gwledig. Rydym wedi crybwyll rhai o'r problemau'n gysylltiedig â digartrefedd yng nghefn gwlad mewn rhannau eraill o'r adroddiad. Clywsom gan nifer o dystion am y problemau dwys sy'n codi oherwydd bod pobl yn byw mor bell oddi wrth wasanaethau ac yn byw mewn cymunedau clos a gwasgaredig lle mae costau llety'n uchel iawn o'u cymharu â chyflogau.

[44] Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 6 Rhagfyr 2006 para 104

4.20 Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru, amcangyfrifir bod 329 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 wedi chwilio am gymorth oherwydd digartrefedd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2006 mewn un awdurdod lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Er mai dim ond 168 a dderbyniwyd yn statudol fel pobl ddigartref, bydd llawer rhagor wedi gorfod chwilio am gymorth gan y sector gwirfoddol i gael hyd i lety neu byddant wedi symud i ardaloedd trefol i gael llety mewn hostel.

4.21 Mae prinder llety tymor byr a hirdymor ar gyfer pobl ifanc ddigartref yn fwy dwys mewn ardaloedd gwledig. Clywsom gan Gymdeithas Gofal Sir Benfro am y prinder cyfleusterau yn y sir, a bod yr unig gyfleusterau a oedd ar gael yn uniongyrchol i'r digartref (e.e. hosteli/llochesi dros nos) 60 milltir i ffwrdd yn Aberystwyth neu Abertawe. Mae gan Powys 11 o fflatiau â chymorth ar gael i bobl ifanc; yn ystod 2005-2006, derbyniwyd bod 65 o bobl ifanc yn ddigartref.

4.22. Roeddem yn falch o glywed am y dulliau arloesol a oedd yn cael eu defnyddio i ddatrys problemau mewn ardaloedd gwledig. Yn Sir Benfro, mae cynllun gwarant teithio'n cael ei ddefnyddio'n ogystal â rhif rhadffôn sy'n caniatáu i bobl ifanc ddigartref gael gwasanaethau a llety. Mae angen mynd i'r afael â digartrefedd yng nghefn gwlad drwy ddefnyddio ffyrdd arloesol tebyg.

Argymhelliad 29: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i fynd i'r afael â phroblemau pobl ddigartref mewn ardaloedd gwledig a cheisio defnyddio dulliau arloesol i'w datrys.

ATODIAD 1 – ARGYMHELLION

Argymhelliad 1: Yng nghyd-destun agenda Adolygiad Beecham, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau, drwy ei strategaeth digartrefedd a thrwy fonitro lefel a chwmpas y gwasanaethau sydd ar gael, fod cwmpas ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc ddigartref yn gyson ar hyd a lled Cymru a'u bod ar gael lle y mae eu hangen.

Dylid rhoi cymorth ac arweiniad i awdurdodau lleol i sefydlu partneriaethau rhanbarthol a fydd yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol weithio mewn partneriaeth i symleiddio'r system gymhleth bresennol o sicrhau bod gwasanaethau, a gwybodaeth amdanynt, ar gael i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru asesu'r angen am wasanaethau digartrefedd i bobl ifanc yn bwrpasol a, lle bo angen, dylai sicrhau bod digon o arian ar gael ar eu cyfer.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar weithio cydgysylltiedig ar bob agwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc, o fewn yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid allanol, er mwyn i adrannau ac asiantaethau gwahanol gydweithio mwy ac er mwyn gwella gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol gynnwys defnyddwyr gwasanaeth ym mhob agwedd ar y gwaith o gynllunio a chreu polisïau ar gyfer gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gynlluniau llwybrau i blant a phobl ifanc y mae Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, Timau Troseddau Ieuenctid neu gyrff yn y sector gwirfoddol yn credu y gallent fod yn agored i niwed wrth iddynt dyfu. Dylid cynllunio'r llwybrau hyn i geisio sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc unigol yn cael y cyfle gorau bosibl i fyw bywyd llawn yng nghymdeithas y brif ffrwd.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer cynnal adolygiadau ar adegau allweddol ym mywyd person ifanc y nodwyd ei fod yn agored i niwed. Dylai'r adolygiadau hyn fod yn amlasiantaethol a dylent gael eu defnyddio i nodi adegau o argyfwng posibl ym mywyd y person ifanc yn ogystal â'r cymorth penodol sydd ei angen arno.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i holl awdurdodau lleol Cymru ddarparu gwasanaethau cyfryngu

effeithiol ac o safon (yn hytrach na'u hannog i wneud hynny) gan ofalu eu bod ar gael i bobl ifanc ddigartref a phobl ifanc y mae posibilrwydd iddynt fod yn ddigartref.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro a gwerthuso llwyddiant y gwasanaethau cyfryngu a gaiff eu darparu ar gyfer pobl ifanc ddigartref yng Nghymru yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i lwyddo.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi arferion da o ran rhannu gwybodaeth am wasanaethau i bobl ifanc ddigartref a dylai sicrhau bod yr arferion da hyn yn cael eu rhannu ymhlith awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

Argymhelliad 11: Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio dulliau arloesol o ddelio â phobl ifanc ddigartref dan 18 oed; er enghraifft, model Abertawe sy'n defnyddio'r Ddeddf Plant yn hytrach na deddfwriaeth digartrefedd.

Argymhelliad 12: Dylai Awdurdodau Lleol Cymru adolygu'r ffordd y caiff deddfwriaeth digartrefedd ei defnyddio ar gyfer pobl ifanc ddigartref 25 oed neu iau a cheisio cynnwys gymaint o adrannau awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol, fel y bo'n briodol, yn eu gofal.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r ffordd y caiff y dull o ystyried opsiynau cartrefu ei ddefnyddio yng nghyswllt pobl dan 25 oed a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu dulliau traws-sector o ddelio â nhw.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei Strategaeth Digartrefedd a'i chanllawiau i awdurdodau lleol er mwyn ystyried y dystiolaeth nad yw'r sector rhentu preifat bob amser yn ddewis addas yng nghyswllt cartrefu pobl ifanc ddigartref. Dylent weithio'n agos â landlordiaid preifat i ofalu bod unrhyw lety a ddefnyddir i gartrefu pobl ifanc ddigartref yn addas.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio'r egwyddorion y glynir wrthynt wrth benderfynu a yw pobl ifanc yn ddigartref yn fwriadol a dylid cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i ofalu nad yw annhegwch ac anghydraddoldeb yn digwydd.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â'i chydweithwyr yn San Steffan, archwilio sut y gallai gael pwerau i newid y ddeddfwriaeth yng Nghymru mewn perthynas â bwriad er mwyn rhoi'r un gofynion i awdurdodau lleol Cymru ag a roddir i awdurdodau lleol yr Alban yng nghyswllt pobl dan 25 oed (h.y. na ddylid gorfod ystyried a oedd unrhyw fwriad i fod yn ddigartref)

Mae'r argymhelliad a ganlyn yn cynrychioli barn mwyafrif y Pwyllgor. Nid oedd dau aelod o'r Pwyllgor yn derbyn yr argymhelliad ar y ffurf hon a byddai'n well ganddynt pe bai wedi'i eirio'n wahanol.

Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau â'r trafodaethau â Llywodraeth y DU yng nghyswllt cael pwerau i atal y cynllun Hawl i Brynu yng Nghymru.

Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cymorth llawn i awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw gytundebau trosglwyddo stoc yn cynnwys ymrwymiad cytundebol i ddarparu tai i grwpiau sy'n agored i niwed.

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog a rhoi cymorth i bob awdurdod lleol yng Nghymru i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio llety Gwely a Brecwast ar gyfer pobl ifanc ddigartref dan 25 oed am fwy na 2 i 6 wythnos.

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i nifer y gwelyau sydd ar gael ar gyfer bobl ifanc ddigartref yng Nghymru ac ystyried ffyrdd o ariannu gwelyau ychwanegol.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, archwilio nifer y lleoedd sydd ar gael yn benodol ar gyfer pobl ifanc ddigartref a dylai lunio strategaeth i gynyddu nifer y lleoedd hyn yn ôl y galw.

Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r sector gwirfoddol i nodi arferion da o ran darparu llety â chymorth i bobl ifanc ddigartref. Dylai ddefnyddio'r arferion da hynny i baratoi model strategol ar gyfer darparu llety â chymorth i bobl ifanc ddigartref ar hyd a lled Cymru.

Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio sut y gall ddefnyddio'r pwerau newydd a gaiff ym mis Mai 2007 i gyflwyno system tenantiaeth fyrddaliol.

Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gyflwyno sylwadau'r cryfaf i Lywodraeth y DU i ddileu'r Cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl.

Argymhelliad 25: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio sut y gall ddefnyddio'r pwerau newydd a gaiff ym mis Mai 2007 i roi arian ychwanegol i bobl ifanc dan 25 oed i ychwanegu at y Rhent Ystafell Sengl. Dylid ystyried hyn fel mesur dros dro a dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i annog eu cydweithwyr yn San Steffan yn gryf i newid deddfwriaeth sylfaenol.

Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i drafod gyda'u cydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau i geisio mynd i'r

afael â'r anghysonderau yn y system budd-daliadau sy'n effeithio ar bobl ifanc ddigartref yng Nghymru.

Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd ati ar fyrder i adolygu ei pholisïau a'i chanllawiau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol i gynhyrchu, gweithredu a monitro cynlluniau cymorth unigol i bob person ifanc sy'n gadael gofal.

Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio ffyrdd o roi arian ychwanegol i wasanaethau Meddyg Teulu sydd ar gyfer pobl ddigartref yn benodol a dylai annog rhagor o Feddygon Teulu yng Nghymru i ddefnyddio'r cytundeb Meddygon Teulu i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i bobl ifanc ddigartref.

Argymhelliad 29: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i fynd i'r afael â phroblemau pobl ddigartref mewn ardaloedd gwledig a cheisio defnyddio dulliau arloesol i'w datrys.

ATODIAD 2 – RHESTR TERMAU

Cartrefi Gwell i Bobl Cymru

Mae Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd yn 2001, yn cydnabod mai perchentyaeth, fel rheol, yw'r ddaliadaeth y byddai pobl yn ei ddewis, ond mae'n cydnabod hefyd fod angen digon o eiddo addas, fforddiadwy i'w rentu yn y sector rhentu preifat a'r sector cymdeithasol. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu newydd ym mis Hydref 2006.

Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru

Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth i bobl ifanc yng Nghymru yw Ymestyn Hawliau. Mae'n cynnwys yr holl wasanaethau, yr holl gymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 11 a 25, pwy bynnag sy'n eu darparu neu'n eu hariannu. Y nod yw arwain ac annog pobl ifanc i fanteisio ar eu hawliau.

Digartrefedd

1. Dyma sut y mae *Deddf Tai 1996* yn diffinio digartrefedd:

> **175.** - (1) A person is homeless if he has no accommodation available for his occupation, in the United Kingdom or elsewhere, which he:
>
> (a) is entitled to occupy by virtue of an interest in it or by virtue of an order of a court,
>
> (b) has an express or implied licence to occupy, or
>
> (c) occupies as a residence by virtue of any enactment or rule of law giving him the right to remain in occupation or restricting the right of another person to recover possession.
>
> (2) A person is also homeless if he has accommodation but:
>
> (a) he cannot secure entry to it, or
>
> (b) it consists of a moveable structure, vehicle or vessel designed or adapted for human habitation and there is no place where he is entitled or permitted both to place it and to reside in it.
>
> (3) A person shall not be treated as having accommodation unless it is accommodation which it would be reasonable for him to continue to occupy.

2. Mae Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diffinio digartrefedd fel sefyllfa:

'Lle nad oes gan berson lety neu lle nad yw'r ddaliadaeth yn sicr'

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys pobl sy'n:

- cysgu ar y stryd
- byw mewn eiddo â daliadaeth ansicr/dros dro (ac eithrio tenantiaid byrddaliol/sicr)
- byw mewn hosteli dros dro, lloches nos, hosteli mynediad uniongyrchol
- byw mewn llety gwely a brecwast
- symud yn aml rhwng perthnasau/ffrindiau

- sgwatio
- yn methu aros neu ddychwelyd i dŷ oherwydd ei gyflwr gwael, ei fod yn rhy lawn, oherwydd na allant fforddio'r rhent, oherwydd trais yn y cartref, aflonyddwch, achosion o gam-drin meddyliol, corfforol a/neu gam-drin rhywiol, neu oherwydd bod y tŷ'n anaddas ar gyfer eu hanghenion etc.
- wedi eu bygwth â cholli eu cartref ac nid oes ganddynt lety addas arall am ryw reswm e.e. gadael yr ysbyty, y lluoedd arfog, sefydliadau eraill neu dai â chymorth,
- gorfod gadael eu cartrefi oherwydd bod eu perthynas â'u teulu neu â'u ffrindiau wedi chwalu, o fewn tri mis cyn diwedd eu tenantiaeth, yn wynebu achos o feddiant neu wedi'u bygwth â chael eu troi allan.

Digartrefedd: Yn gymwys i gael cymorth a'u hangen yn flaenoriaeth
O dan Rhan VII o *Ddeddf Tai 1996* mae gan awdurdodau tai ddyletswydd i ddarparu llety i'r rheini sy'n ddigartref, yn gymwys i gael cymorth a'u hangen yn flaenoriaeth. Mae Rhan 189 o'r Ddeddf yn amlinellu disgrifiadau o'r rheini y mae eu hangen yn flaenoriaeth.

> **189.** - (1) The following have a priority need for accommodation-
> (a) A pregnant woman or a person with whom she resides or might reasonably be expected to reside;
> (b) A person with whom dependent children reside or might reasonably be expected to reside;
> (c) A person who is vulnerable as a result of old age, mental illness or handicap or physical disability or other special reason, or with whom such a person resides or might reasonably be expected to reside;
> (d) A person who is homeless or threatened with homelessness as a result of an emergency such as flood, fire or other disaster.

Mae Adran 189 hefyd yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nodi disgrifiadau eraill, a gaiff eu defnyddio wrth gyflwyno *Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001*. Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r disgrifiadau ychwanegol a ganlyn i bobl sydd â'u hangen yn flaenoriaeth:

- Person sy'n gadael gofal neu berson sydd mewn perygl neilltuol o gael ei ecsbloetio'n rhywiol neu'n ariannol, ac sy'n 18 oed neu drosodd ond o dan 21 oed
- Pobl ifanc 16 ac 17 oed
- Pobl sy'n ffoi rhag trais yn y cartref neu rhag bygythiad trais yn y cartref
- Person sydd heb lety ar ôl ymadael â'r lluoedd arfog
- Cyn-garcharor sydd heb lety ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa

Mae Adrannau 185 a 186 o'r Ddeddf yn diffinio pwy sy'n anghymwys i gael cymorth mewn perthynas â phobl o dramor a cheiswyr lloches.

Digartrefedd: Digartrefedd Bwriadol
Mae Adran 191 o *Ddeddf Tai 1996* yn diffinio digartrefedd bwriadol fel a ganlyn:

> **191.** - (1) A person becomes homeless intentionally if he deliberately does or fails to do anything in consequence of which he ceases to occupy accommodation which is available for his occupation and which it would have been reasonable for him to continue to occupy.
> (2) For the purposes of subsection (1) an act or omission in good faith on the part of a person who was unaware of any relevant fact shall not be treated as deliberate.
> (3) A person shall be treated as becoming homeless intentionally if:
> (a) he enters into an arrangement under which he is required to cease to occupy accommodation which it would have been reasonable for him to continue to occupy, and
> (b) the purpose of the arrangement is to enable him to become entitled to assistance under this Part, and there is no other good reason why he is homeless.
> (4) A person who is given advice or assistance under section 197 (duty where other suitable alternative accommodation available), but fails to secure suitable accommodation in circumstances in which it was reasonably to be expected that he would do so, shall, if he makes a further application under this Part, be treated as having become homeless intentionally.

Digartrefedd: Heb do uwch eu pennau
Mae Strategaeth Digartrefedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn argymell y diffiniad a ganlyn o 'gysgu ar y stryd'

> 'Pobl sy'n cysgu, neu wedi gwneud gwely, yn yr awyr agored. Pobl mewn adeiladau neu leoedd eraill nad ydynt wedi'u cynllunio i bobl fyw ynddynt. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys er enghraifft, pobl sy'n cysgu ar y strydoedd, ger drysau adeiladau, mewn parciau, cysgodfannau bws, neu adeiladau na chawsant eu cynllunio i bobl fyw ynddynt, fel ysguboriau, siediau, meysydd parcio, ceir, cychod gwag, gorsafoedd, sgwatiau, pebyll, neu lochesi dros dro.'

Digartrefedd: Bygwth â digartrefedd
Mae Adran 175 (4) o *Ddeddf Tai 1996* yn nodi bod:

> A person is threatened with homelessness if it is likely that he will become homeless within 28 days

Budd-dal Tai: Y Rheol 16 awr
Ni chaiff pobl dros 18 oed sy'n astudio am ragor nag 16 awr yr wythnos hawlio Budd-dal Tai.

Budd-dal Tai: Estyniad i'ch Budd-dal
Mae'r polisi hwn yn caniatáu i'r rheini a fu'n hawlio Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith am o leiaf chwe mis barhau i dderbyn eu Budd-dal Tai,

ar yr un gyfradd, am 4 wythnos ar ôl iddynt ddechrau gweithio, os bydd y swydd yn parhau am bum wythnos neu ragor.

Budd-dal Tai: Lwfans Tai Lleol
Y Lwfans Tai Lleol yw'r ffordd newydd o bennu Budd-dal Tai ar gyfer tenantiaid preifat. Caiff y Lwfans Tai Lleol ei seilio ar faint y mae'n ei gostio i rentu yn yr ardal y mae'r person yn byw ynddi a sawl un sy'n byw gydag ef. Awdurdodau lleol sy'n ei dalu, a hynny i'r tenant yn uniongyrchol sydd, wedyn, yn talu ei landlord, fel rheol.

Budd-dal Tai: Didyniadau pan fydd aelod o'r teulu'n peidio â bod yn ddibynnol
Y gostyngiad yn y budd-dal tai y bydd uned deuluol yn ei gael pan fydd un aelod o'r teulu yn troi'n 18 oed. Mae'r gostyngiad yn dibynnu ar incwm yr aelod hwn os yw'n gweithio dros 16 awr yr wythnos.

Mae'r Lwfans Tai Lleol yn cael ei dreialu mewn pum ardal yng Nghymru ar hyn o bryd:

- Arfordir Ceredigion
- Menai
- Arfordir y Gogledd
- Ardal Wledig y Gogledd
- Sir Benfro.

Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti sy'n pennu'r cyfraddau a chânt eu seilio ar gyfraddau'r farchnad ym mhob ardal. Y cyfraddau yw'r swm uchaf o Lwfans Tai Lleol a gaiff ei dalu. Mae'n bosibl y bydd y rheini sy'n ei hawlio'n cael llai, yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau.

Budd-dal Tai: Cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl
Nid yw pobl dan 25 oed, sydd heb blant dibynnol, yn cael gymaint o Fudd-dal Tai â'r rhieni dros 25 oed. Mae'r swm y gallant ei hawlio yn cael ei gyfyngu i gost gyfartalog rhentu ystafell mewn tŷ a gaiff ei rannu.

Gwasanaethau Ychwanegol Cenedlaethol
Cytundeb rhwng Bwrdd Iechyd Lleol a Meddyg Teulu sy'n darparu gwasanaeth arbenigol yn unol â chanllawiau penodol i helpu grwpiau dan anfantais, sy'n cynnwys pobl ddigartref. Y nod yw sicrhau: bod yr un lefel o wasanaethau ar gael i bawb, gan gynnwys pobl ddigartref, gan bractis a gaiff ei gynllunio i sicrhau bod eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu'n effeithiol; bod Meddygon Teulu'n cael y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r adnoddau i'w galluogi i ddelio'n effeithio ag anghenion iechyd pobl ddigartref; a bod gwasanaethau Meddygon Teulu'n gallu mynd i'r afael ag anghenion iechyd pobl ddigartref mewn ffordd gyfannol drwy weithio gyda gwasanaethu perthnasol (e.e. gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol) er mwyn integreiddio pobl ddigartref yn y gymuned leol.

Y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd– 2006-2008
Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Strategaeth Digartrefedd gyntaf yn 2003. Cyflwynwyd amcanion ac ymrwymiadau i weithio gydag eraill i leihau

digartrefedd. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig ar Ddigartrefedd 2006-2008 yn cryfhau ac yn adeiladu ar yr amcanion hyn drwy roi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd a gweithio ar y cyd. Mae'r Strategaeth yn cynnwys Cynllun Gweithredu sy'n amlinellu amrywiaeth o ymrwymiadau ychwanegol i fynd i'r afael â nhw ar y cyd.

Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth
Un rhan o gynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth Cymru yw'r 'Pecyn Cyflogadwyedd' sydd o ddiddordeb arbennig i bobl ddigartref ac a fydd yn datblygu rhaglen i gynnwys gwybodaeth, cyngor a chanllawiau; darpariaeth arloesol a hyblyg sy'n addas ar gyfer anghenion unigol; cymorth mentora; a chontinwwm dysgu, a fydd yn galluogi pobl i symud ymlaen o gyrsiau hyfforddi cyn cael swydd, i hyfforddiant yn y gweithle. Ni sonnir yn benodol am bobl ddigartref mewn perthynas â'r 'pecyn cyflogadwyedd', ond mae'r cynllun yn cydnabod pobl ddigarterf fel grŵp y mae angen cymorth parhaus arnynt i gael hyd i waith.

Grant Tai Cymdeithasol
Grant cyfalaf yw'r Grant Tai Cymdeithasol a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu tai fforddiadwy newydd i'w rhentu neu berchentyaeth cost isel, yn ôl yr anghenion lleol a nodir gan yr awdurdod lleol. Mae'n bosibl defnyddio Grant Tai Cymdeithasol i ddarparu naill ai tai i'w rhentu neu berchentyaeth cost isel drwy godi tai newydd neu drwy ddefnyddio tai sy'n bod eisoes. Mae'n bosibl defnyddio'r grant hefyd i ategu nifer o wahanol fathau o gynlluniau fel:

- cynlluniau i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael i'r rhentu
- cynlluniau i bobl hŷn gan gynnwys cynlluniau Extracare
- Cymorth Prynu – i helpu pobl i brynu cartref
- cynlluniau i fynd i'r afael â galw isel ac i hybu adfywiad cymunedol
- cynlluniau i bobl y mae angen cymorth arnynt i fyw'n annibynnol.

Cefnogi Pobl
Fframwaith polisi ac ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Cefnogi Pobl. Y nod yw darparu cymorth yn gysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini a all fod mewn perygl o fod yn ddigartref. Caiff pobl gymorth i fedru byw'n annibynnol ac i barhau â'u tenantiaeth. Mae Cefnogi Pobl yn dosbarthu arian i ddarparwyr cymorth lleol, er enghraifft, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, awdurdodau lleol a chyrff gwirfoddol. Mae'n annog y darparwyr lleol hyn i gydweithio i ddarparu gwasanaethau i alluogi pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol. Mae Cefnogi Pobl yn cynnwys dwy raglen ariannu ar wahân: Grant Refeniw Cefnogi Pobl sy'n berthnasol i bob prosiect i ddarparu tai â chymorth ac a gaiff ei weinyddu gan Lywodraeth y Cynulliad a Grant Cefnogi Pobl sy'n berthnasol i brosiectau gofal yn y gymuned a gwasanaethau i bobl hŷn ac a gaiff ei weinyddu gan yr awdurdod lleol.

Credyd Treth Gwaith
Credyd treth y gall pobl sy'n gweithio, ond sydd heb blant, wneud cais amdano. I fod yn gymwys, rhaid i bobl sengl fod yn gweithio 30 awr yr

wythnos o leiaf a rhaid iddynt fod yn 25 oed neu drosodd. Nid yw'r un o'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i bobl sydd â phlant.

ANNEX 3 – TERMS OF REFERENCE

The Committee received a scoping paper from the Welsh Assembly Government for consideration at Committee on 21 September 2006. As a result of the discussion, the following terms of reference were agreed:

To consider the issues surrounding youth homelessness in Wales in particular:

- The provision of services for young homeless people by local authorities and the voluntary sector, including the identification of good practice;
- The role of local authorities in applying relevant legislation to youth homelessness issues, including the identification of good practice;
- To make recommendations.

The review will draw on the experiences of young homeless people, seeking their views on the risk indicators for homelessness, the quality and availability of services for homeless young people and models of participation.

Three of the Assembly's Regional Committees will take evidence on issues relating to their area within the above term of reference (e.g. rural youth homelessness, provision of bilingual services, seasonal youth homelessness, and youth homelessness in Objective 1 areas).

The Committee will receive evidence at it meetings on 8 November and 6 December and will also take evidence through rapporteur groups from young homeless people.

ANNEX 4 – ORAL AND WRITTEN EVIDENCE

Social Justice and Regeneration Committee

SJR(2)- 15-06 (8 November 2006)

Shelter Cymru
Cymorth Cymru
Wallich Clifford
Dr Kay Saunders
Pembrokeshire Care Society

SJR(2)- 17-06 (6 December 2006)

Barnardos Cymru
National Association for the Care and Resettlement of Offenders
Gisda
Welsh Local Government Association

Regional Committees

South Wales Central Regional Committee – 10 November 2006

North Wales Regional Committee – 17 November 2006

Mid and West Wales Regional Committee – 17 November 2006

Written evidence

NCH Cymru

Tai, Dysgu a Gwaith, Cymru

ANNEX 5 – PROJECTS VISITED

Bays Partnership Project, Swansea

Cymdeithas Tai Cymru (Wrexham)

Cyrenians Project, Swansea

Llamau, Cardiff (Facilitated group of young homeless people in Cardiff area)

Solus, Abergavenny (Facilitated group of young homeless people in Abergavenny/Newport area)

Youth Choices, Colwyn Bay (Facilitated group of young homeless people in North Wales area)